
# Dau ddarn bach o arian


**www,lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther**





Aeth Iesu i'r deml yn Jerwsalem i ddweud wrth bobl am Dduw. Gwelodd bobl yn rhoi arian yn y blwch casglu arian at drysorfa'r deml.




Daeth dyn cyfoethog iawn i'r deml â bag mawr o arian. Rhoddodd y cyfan yn y blwch casglu.



Roedd o'n hynod o hunanfoddhaus ac roedd yn gobeithio y byddai pawb yn ei weld y rhoi gymaint o arian yn y bocs! Tincialodd yr arian wrth i'r dyn wneud sioe o'i arllwys i mewn i'r blwch casglu. Am gyfraniad mawr!



Roedd yn hawdd iawn i'r dyn cyfoethog roi swm mawr o arian. Roedd ganddo ddigonedd o arian yn ei gartref a digonedd i'w wario ac fe allai brynu unrhyw beth roedd o ei eisiau.




Yna gwelodd Iesu wraig fach, dlawd yn gollwng dau ddarn arian bychan i mewn i'r blwch casglu. Doedd ganddi hi fawr ddim o arian ond roedd hi'n caru Duw'n angerddol.



Doedd gan y wraig fach, dlawd ddim arian i'w sbario. Buasai wedi gallu cadw'r arian roedd ganddi iddi hi ei hunan ond fe roddodd y cyfan oedd ganddi â chalon ddiolchgar, llawn cariad.



Dywedodd Iesu,"Mae'r wraig hon wedi cyfrannu llawer mwy na'r holl bobl gyfoethog. Doedd cyfrannu arian yn golygu fawr ddim i'r bobl gyfoethog ond rhoddodd y wraig dlawd hon y cyfan oedd ganddi i Dduw, pan roedd hi wir ei angen ei hunan."



Mae Duw yn gweld sut rydan ni'n rhoi iddo fo. Mae o am i ni roi am ein bod yn ei garu, nid am ein bod eisiau i eraill weld faint o arian sydd gennym a pha mor bwysig rydyn ni'n teimlo am hynny.